**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni

14 Tachwedd 2024

Annwyl gyfeillion,

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Er mwyn ategu ein gwaith wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2024, byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rydym yn bwriadu cynnal y gwaith o graffu ar y cynigion hyn drwy ohebiaeth; byddem yn ddiolchgar felly pe bai modd inni gael rhagor o fanylion am y meysydd a nodir yn yr atodiad erbyn 8 Ionawr 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

## Atodiad

### Cyffredinol

**1.** Dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 a chyllidebau dangosol y dyfodol, yn ôl maes rhaglen wariant (SPA), cam gweithredu a llinell wariant yn y gyllideb (BEL), gan gynnwys refeniw a chyfalaf, a lle y bo'n berthnasol, cymhariaeth o un flwyddyn i'r llall â'r gwariant arfaethedig yn 2024-25.

**2.** Disgrifiad naratif manwl o unrhyw wariant arfaethedig ar gyfiawnder yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 ac unrhyw newidiadau o un flwyddyn i'r llall a nodwyd.

**3.** Crynodeb o unrhyw waith a wnaed i wella lefel y wybodaeth a ddarperir am wariant arfaethedig ym maes cyfiawnder yn y gyllideb ddrafft, gan gynnwys manylion am unrhyw newidiadau a wnaed i strwythur a chyflwyniad y gyllideb o gymharu â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i hyn.

### Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**4.** Trosolwg o'r gwariant arfaethedig yn 2025-26 ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru gan gynnwys:

- y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni yn sgil y gwariant hwn;
- esboniad o ba feysydd gwaith fydd yn cael eu blaenoriaethu yn 2025-26; a
- manylion am sut y mae'r gwariant arfaethedig hwn yn cymharu â gwariant ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2024-25.

**5.** Manylion am y gwariant arfaethedig ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2025-26.

**6.** Trosolwg o unrhyw wariant arfaethedig i baratoi ar gyfer uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatganoli elfennau o'r system gyfiawnder i Gymru.

**7.** Trosolwg o unrhyw adnoddau yng nghyllideb ddrafft 2025-26 i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer system dribiwnlysoedd newydd i Gymru, gan gynnwys datblygu Bil gan y Senedd i ddiwygio'r Tribiwnlysoedd.

### Tribiwnlysoedd Cymru

**8.** Trosolwg o'r adnoddau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 i gefnogi Tribiwnlysoedd Cymru, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o wariant sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael i'r Tribiwnlysoedd, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Llywydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2024.

**Hygyrchedd cyfraith Cymru**

**9.** Dadansoddiad o unrhyw wariant arfaethedig yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 sy'n ymwneud â chyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.